**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref ARD/05457/16

David John Rowlands AM
Chair - Petitions committee.
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff Bay
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

27 Chwefror 2018

Annwyl John,

Rwy'n falch medru diweddaru'r pwyllgor ar ymateb Llywodraeth Cymru i ddeiseb P-05-724 Hawliau i Ofal Sylfaenol yn Gymraeg.

Ystyriwyd y ddeiseb hon ynghyd â'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Sector Iechyd) drafft a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Hydref 2016. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd am ofal sylfaenol rwyf wedi diwygio'r Rheoliadau fel eu bod, gan eithrio safon 19 (galwadau ffôn a wneir gan gorff), yn berthnasol i wasanaethau gofal sylfaenol sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan fyrddau iechyd lleol.

Nid wyf yn ystyried ei bod hi'n rhesymol nag yn gymesur i osod safonau ar fyrddau iechyd lleol a fyddai'n eu dal yn gyfrifol am fethiant ar ran un o'r darparwyr gofal sylfaenol annibynnol i gydymffurfio. Rwyf felly o'r farn, gyda chytundeb Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mai'r ffordd fwyaf rhesymol a chymesur o osod rhwymedigaethau Cymraeg ar y darparwyr annibynnol yw drwy drefniadau dan gontract rhyngddynt a'r byrddau iechyd lleol. Bydd hyn yn sicrhau dull cyson o ddelio gyda'r holl

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gontractwyr ac yn creu rhwymedigaethau gall y byrddau iechyd lleol orfodi. Bydd swyddogion yn dechrau trafodaethau gyda chyrff cynrychiadol y contractwyr maes o law.

Rwyf wedi gosod Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif.7) 2018 o flaen y Cynulliad heddiw.

Cofion Gorau

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes